

Canllawiau Dangosfwrdd MyView ResourceLink

Addasu Gwylliau Blynyddol

Mawrth 2021

sirgar.llyw.cymru

Addasu Hawl i Wyliau

Gellir gweld canllawiau ar yr hawl i Wyliau Blynnyddol ar y fewnwyd:

<http://mewnwyd/ein-pobl/adnoddau-dynol/amser-or-gwaith/gwyliau-blynnyddol/>


Dilynwch y ddolen uchod ar gyfer y canllawiau polisi diweddaraf.

Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol ar hyn o bryd, cytunwyd y gellir trosglwyddo uchafswm o bum niwrnod o un flwyddyn wyliau i'r llall a bydd y system yn gwneud hynny'n awtomatig ar gyfer y flwyddyn nesaf (adolygwyd ym mis Mai 2021). Rhaid cymryd unrhyw wyliau a drosglwyddir cyn pen 3 mis wedi'r dyddiad trosglwyddo.

Bydd y system yn addasu'r ffigur a drosglwyddir yn ôl nifer y diwrnodau sy'n weddill o wyliau blynnyddol gweithiwr hyd at uchafswm o 5 diwrnod. Os deuir i gytundeb a rhoddir cymeradwyaeth y gall y gweithiwr drosglwyddo mwy na 5 diwrnod, rhaid i'w reolwr ychwanegu'r addasiad at gofnod absenoldeb y gweithiwr.

Noder mai cyfrifoldeb y Rheolwr yw sicrhau bod y broses gymeradwyo briodol wedi'i dilyn cyn gweithredu yn sgil unrhyw gais i addasu'r hawl i wyliau blynnyddol.

Mewngofnodwch i MyView, cliciwch ar **Fy Mhobl (Detholwr Tîm)** a dewiswch y gweithiwr priodol.



Cliciwch ar **Absenoldeb** yn y ddewislen ar y chwith, wedyn **Gwyliau Blynnyddol Ychwanegol/Gwyliau Ychwanegol**. Bydd y sgrîn Cais am Hawl i Wyliau Ychwanegol yn ymddangos.

Dewiswch y flwyddyn wyliau briodol lle y mae angen newid yr hawl. Ar waelod y sgrîn cliciwch ar y maes **Newid i'r Hawl** a nodwch nifer y diwrnodau/oriau o ran hawl y mae angen eu diwygio, h.y. os yw'r gweithiwr yn trosglwyddo 2 ddiwrnod yn awtomatig (ar ben y 5 diwrnod a drosglwyddwyd eisoes) dylech nodi 2 yn y maes **Newid i'r Hawl**.

Team Selector > Additional Annual Leave

Holiday Extra Entitlement Request

Extra Entitlement Request (Days)

Employee	PHILIPPA JONES
Period	1/2018 - 1/2019
Brought Forward	0
Entitlement	34
Extra	3
Taken	25
Remainder	12
Entitlement Change	5

Back Save Submit

Gellir hefyd nodi ffigurau negyddol yn y maes Newid i'r Hawl. Dylech roi arwydd negyddol (-) o flaen y rhif.

Team Selector > Additional Annual Leave

Holiday Extra Entitlement Request

Extra Entitlement Request (Days)

Employee	PHILIPPA JONES
Period	1/2018 - 1/2019
Brought Forward	0
Entitlement	34
Extra	3
Taken	25
Remainder	12
Entitlement Change	-3

Back Save Submit

Ar ôl i chi fewnbynnu'r manylion perthnasol cliciwch ar **Gyflwyno** i gwblhau'r broses.
Sylwer: Ni fydd cadw'r newid (clicio ar Gadw) yn newid yr hawl i wyliau, bydd yn cadw'r newidiadau er mwyn iddynt allu cael eu gweithredu pan fyddwch yn barod yn barod i wneud hynny. Rhaid i chi glicio ar Gyflwyno er mwyn iddo gael ei weithredu.

[illegible]

Cyngor Sir Gâr • Carmarthenshire County Council